Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Gymunedol Estyn

Ffordd Penarlâg
Yr Hob
Ger Wrecsam
Sir y Fflint
LL12 9NL

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Estyn

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Gymunedol Estyn
Awdurdod lleol	Cyngor Sir y Fflint
Iaith y darparwr	Saesneg
Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	*Dim
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	221
Disgyblion o oed ysgol statudol	174
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	22
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%)	12.60%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%)	2.90%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	3.40%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	*
Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon	Nac ydy

Dyddiad penodi'r pennaeth	01/01/2011
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	10/06/2019
Dyddiad dechrau'r arolygiad	21/09/2026

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Crynodeb

Mae Ysgol Estyn yn gymuned ddysgu hapus, anogol a chynhwysol iawn lle mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cryf a chynaledig o'u mannau cychwyn unigol. Mae disgyblion yn dangos agweddau rhagorol tuag at ddysgu. Maent yn cydweithio'n dda ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus, gwydn ac annibynnol iawn. Maent yn gwneud dewisiadau pwrpasol am eu dysgu, yn dal ati i ganolbwyntio'n dda ac yn dangos blaengaredd wrth ddewis adnoddau, datrys problemau a gwerthuso'u gwaith eu hunain.

Mae staff yn defnyddio amgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn eithriadol o dda i ddatblygu dysgu, lles ac annibyniaeth disgyblion. Maent yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a difyr sy'n annog disgyblion i archwilio, ymchwilio ac arwain agweddau ar eu dysgu eu hunain. Mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn cyfrannu'n ystyrlon at fywyd yr ysgol ac yn datblygu medrau arwain cryf trwy ystod o grwpiau arweinyddiaeth disgyblion.

Mae'r ysgol wedi sefydlu diwylliant cryf o iaith a llythrennedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus, yn trafod llyfrau'n frwdfrydig ac yn cymhwyso geirfa gynyddol gyfoethog yn eu hysgrifennu ar draws ystod o gyd-destunau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth fathemategol, eu cymhwysedd digidol, a'u medrau datrys problemau yn dda, ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus i'w gwaith yn ystod gweithgareddau dysgu difyr a phwrpasol. Mae athrawon yn darparu lefel briodol o her ac yn defnyddio adborth yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion i fireinio'u gwaith a dyfnhau eu dealltwriaeth.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw ei gwaith hynod effeithiol gydag ysgolion lleol. Mae arweinwyr a staff yn gweithio'n bwrpasol gyda chydweithwyr i rannu a datblygu ymagweddau effeithiol at addysgu a dysgu, datblygu eu cwricwlwm, cryfhau dysgu proffesiynol ar gyfer staff a sicrhau trefniadau pontio esmwyth ar gyfer disgyblion.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol ddynamig ac yn cael cefnogaeth dda gan lywodraethwyr, arweinwyr a staff ymroddgar sy'n rhannu ffocws diwyro ar wella deilliannau ar gyfer pob disgybl. Caiff disgyblion eu hannog i chwarae rôl weithgar yn eu cymuned a datblygu i fod yn ddinasyddion gwerthfawr a chyfrifol trwy ystod eang o gyfleoedd ystyrlon i gyfrannu at fentrau lleol, cefnogi digwyddiadau cymunedol ac ymgysylltu â phobl y tu hwnt i'r ysgol.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Datblygu medrau llafaredd Cymraeg disgyblion ymhellach.

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif werthusiad

Mae Ysgol Estyn yn ysgol sydd wrth wraidd ei chymuned. Mae staff yn rhoi disgyblion yng nghanol yr holl benderfyniadau a wneir, ac mae ymagwedd ddyheadol yr ysgol at alluogi pob un o'r disgyblion i gyflawni eu potensial yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer eu dyfodol. Mae perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion yn sail i ddiwylliant cadarnhaol ac anogol yr ysgol. Mae disgyblion yn barchus, yn ystyriol ac yn gwrtais tuag at ei gilydd a staff. Mae arweinwyr a staff wedi creu amgylchedd dysgu pwyllog a phwrpasol sy'n cyfrannu at les disgyblion yn effeithiol.

Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth a her effeithiol i arweinwyr. Trwy eu hymglymiad mewn hunanwerthuso a monitro, maent yn cynnal ffocws clir ar wella'r ysgol ac yn chwarae rôl weithgar ym mywyd yr ysgol. Maent yn gweithio'n agos gydag arweinwyr i reoli cyllid, i sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau gwella ac yn lleihau effaith tlodi ar brofiadau dysgu disgyblion.

Mae arweinyddiaeth ar bob lefel yn gryfder nodedig yn yr ysgol. Mae gan staff rôl weithredol mewn arwain ar flaenoriaethau gwella, rhannu arfer effeithiol a gwerthuso effaith eu gwaith. Trwy ddiwylliant cydweithredol iawn o ymholi, monitro a myfyrio proffesiynol, mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol i fireinio addysgu a dysgu. Mae gan arweinwyr a staff ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer disgyblion.

Mae arweinwyr yn cynnal ffocws cryf ar flaenoriaethau cenedlaethol, gan alluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, i wneud cynnydd cadarnhaol mewn dysgu. Mae dysgu proffesiynol cynlluniedig a phwrpasol wedi cael effaith nodedig ar wella cysondeb yr addysgu a chryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel.

Ciplun: Gwaith partneriaeth effeithiol

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn ar gyfer staff i weithio mewn partneriaeth â staff mewn ysgolion lleol, gan rannu ymagweddau effeithiol at addysgu a dysgu a chryfhau arweinyddiaeth. Mae staff yn elwa ar ddeialog broffesiynol reolaidd a phwrpasol, gweithgarwch monitro ar y cyd a datblygu'r cwricwlwm ar y cyd. Mae'r ffocws hwn ar welliant parhaus trwy ddysgu proffesiynol yn cael effaith sylweddol ar ansawdd yr addysgu ac yn sicrhau bod profiadau dysgu disgyblion yn cefnogi eu cynnydd a'u lles yn llwyddiannus.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryfder yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu nodi'n briodol ac yn gyflym, a bod monitro a chymorth ar gyfer disgyblion ag ADY yn diwallu eu hanghenion dysgu, cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cynnal diwylliant cynhwysol iawn lle mae staff medrus yn ymatebol i anghenion unigol disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cadarnhaol o'u mannau cychwyn, yn gwella'u hymgysylltiad, ac yn datblygu eu hannibyniaeth.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf. Mae staff yn deall eu cyfrifoldebau yn dda ac yn ymateb yn briodol i bryderon. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i fonitro presenoldeb disgyblion ac yn cynorthwyo teuluoedd yn dda i sicrhau bod presenoldeb pob un o'r disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol wedi datblygu cwricwlwm pwrpasol sy'n adlewyrchu natur gyfannol Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon yn cyfuno meysydd y cwricwlwm fel y celfyddydau mynegiannol ac iechyd a lles yn fedrus i greu profiadau dysgu sy'n ysbrydoli disgyblion. Mae profiadau dysgu wedi eu cynllunio'n ystyriol yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau meddwl yn feirniadol a datrys problemau ac yn eu helpu i gynllunio a threfnu eu gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth foesegol, gymdeithasol a moesol. Mae athrawon yn galluogi disgyblion i archwilio credoau a gwerthoedd. O oedran ifanc, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o dda a drwg ac effaith eu gweithredoedd ar bobl eraill. Mae gwasanaethau a digwyddiadau ysgol gyfan yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu ymdeimlad cryf o berthyn a hunaniaeth a dangos gofal ac ystyriaeth am bobl eraill.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ddiwylliant a threftadaeth Cymru, sy'n meithrin balchder yn eu hardal leol a Chymru. Mae'r Criw Cymraeg yn frwdfrydig iawn am hyrwyddo'r Gymraeg ac yn dod o hyd i ffyrdd creadigol o annog disgyblion a'r gymuned i werthfawrogi'r iaith. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg yn raddol ar draws yr ysgol. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn sgyrsiau Cymraeg syml gyda chymorth, nid oes ganddynt yr hyder i ymateb yn annibynnol neu ymestyn eu hiaith y tu hwnt i ymatebion sylfaenol.

Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynllunio profiadau dysgu sy'n briodol o heriol. Yn ystod gwersi, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi esboniadau clir i ddisgyblion, ac yn gosod bwriadau dysgu pwrpasol. Maent yn cynorthwyo disgyblion yn effeithiol, yn darparu enghreifftiau a meini prawf llwyddiant defnyddiol, ac yn gofyn cwestiynau sy'n helpu disgyblion i wneud cynnydd cryf. Mae disgyblion yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at eu dysgu ac yn aml yn nodi eu

camau nesaf eu hunain. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn darparu adborth sy'n cynorthwyo disgyblion i fyfyrio ar eu gwaith, a'i wella, a datblygu dealltwriaeth gadarn o ddiben eu dysgu.

Ciplun: Datblygiad effeithiol dysgwyr annibynnol

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu annibyniaeth disgyblion o'r cyfnodau cynharach. Mae staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu, datrys problemau a chymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu cynnydd. Mae amgylcheddau dysgu cyfoethog dan do ac yn yr awyr agored yn annog archwilio ac ymholi annibynnol, a chymhwyso medrau mewn cyd-destunau ystyrlon. Mae disgyblion yn datblygu gwydnwch, hunanreoleiddio a hyder fel dysgwyr, gan weithio'n effeithiol yn annibynnol ac ar y cyd, ac yn gwneud cynnydd cryf ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy'n galluogi disgyblion i gymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd a dangos eu cymhwysedd digidol yn effeithiol. Maent yn fodelau iaith cryf sy'n gwerthfawrogi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau siarad a gwrando. Maent yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu anffurfiol a ffurfiol sy'n galluogi disgyblion i wrando'n dda a siarad â hyder o oedran ifanc. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gyfleoedd i ysgrifennu at ystod o ddibenion, ac erbyn iddynt adael yr ysgol, maent yn ysgrifennu'n llwyddiannus, yn glir ac yn greadigol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cyfoethog o ddarllen. Mae arweinwyr wedi blaenoriaethu datblygu darllen ar draws yr ysgol trwy greu ardaloedd darllen deniadol, sy'n cynnwys adnoddau da ym mhob ystafell ddosbarth ac ar draws yr amgylchedd dysgu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd cryf am ddarllen ac yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen er pleser. Mae bron pob un o'r athrawon yn dewis testunau sy'n ysbrydoli dysgu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cael pleser mewn darllen llyfrau ac yn ail-ddweud storïau cyfarwydd yn frwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn dyfalbarhau â thestunau heriol ac yn defnyddio ystod o fedrau darllen uwch i gefnogi eu dysgu.

Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu gwybodaeth fathemategol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau ac maent yn trosglwyddo'u medrau i feysydd eraill y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio ystod o offer digidol yn hyderus i gefnogi eu dysgu, eu medrau datrys problemau a'u creadigrwydd.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/11/2026